**CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL**

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Dydd Mawrth 17 Mehefin 2025**

**Yn bresennol:** Cyng. Einir Thomas – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen, William Victor Owen, Sharon Parry, Gareth Thomas a Dyfed Williams.
**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen – Clerc/ SAC a Ken Taylor - Cynghorydd Sir.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng**.** Evan Wyn Robertson.

2. **Datganiad o Ddiddordeb** – datganiadau o fuddiannau personol:
Cyng. Gwilym O. Jones a Gordon Owen yn eitem 4.2 Neuadd y Pentref
Cyng. K. Taylor - materion cynllunio oherwydd ei swydd ar y Pwyllgor Cynllunio.

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion 20 Mai 2025 fel rhai cywir (cyn. Cyng. S. Parry, eilio Cyng. W.V. Owen)

4. **Materion sy'n codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: Nodwyd fod yr offer i fod i gael archwiliad ROSPA mis yma ac roedd angen gwneud mwy o waith ar y meinciau a'r coed.

4.2 Neuadd y Pentref: Roedd R.G. Hire dal angen gosod y beipen ddŵr. Cytunwyd i dderbyn y dyfynbrisiau o £522 + TAW a £365 + TAW ar gyfer gosod goleuadau allanol a chyflenwad trydan a socedi i'r storfa.

4.3 Goleuadau Stryd Lôn Minffordd – amcangyfrifwyd y byddai 5 lamp yn ddigon i oleuo'r ffordd rhwng Tafarn Cwch a chyffordd yr A55 – Cytunwyd i brynu un lamp yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

4.4 Bwrdd Gofalwyr Tywyn Trewan: Bu Cyng. Einir Thomas mewn cyfarfod gyda'r Bwrdd Gofalwyr ar 4 Mehefin. Dywedwyd eu bod yn parhau i weithredu argymhellion y Cynllun Rheoli Tywyn Trewan a gomisiynwyd yn 2022. Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael am unrhyw heriau cyfredol, ond dywedwyd bod ganddynt yswiriant ar waith ac y byddent yn gofyn i CSYM dalu eu biliau cyfreithiol.
Er bod dau gynghorydd o Gyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll ar y Bwrdd Gofalwyr ni ellid eu hystyried fel cynrychiolwyr y Cyngor gan fod y Bwrdd yn amharod i ymgynghori na rhannu gwybodaeth gyda'r Cyngor. Ni fu'r Cyngor yn rhan o unrhyw broses o wneud penderfyniadau.

4.5 Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion - dim.

5. **Cynllunio**

5.1 HHP/2025/65 Hen Cymyran – wedi ei dynnu'n ôl

5.2 VAR 2025/14 Llain Bont, Llanfair yn Neubwll - wedi'i ganiatáu

## 6. Materion Ariannol

Cyflwynodd y SAC yr adroddiad ariannol ar gyfer y cyfnod rhwng 1.5.2025 a 31.5. 2025 ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

6.1 Cyfrifon Terfynol 2024/25
Roedd yr Archwilydd Mewnol wedi cwblhau ei archwiliad o gyfrifon 2024/25 ac wedi cadarnhau bod y cyfrifon mewn trefn. Nid oedd unrhyw argymhellion ar gyfer sylw'r Cyngor, fodd bynnag, roedd wedi nodi bod gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nodwyd fod y Cyngor wedi rhoi arian o’r neilltu i dalu costau'r gwaith hanfodol ar neuadd yn ogystal â gosod goleuadau stryd ar Ffordd Minffordd. Byddai'r gwariant hwn yn lleihau’r cronfeydd wrth gefn yn sylweddol. Cytunwyd yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad, byddai'r Cadeirydd a'r SAC yn ardystio'r Ffurflen Flynyddol cyn anfon yr holl ddogfennau y gofynnwyd amdanynt i'r Archwilwyr Allanol.

6.2 Taliadau ers y cyfarfod diwethaf: nodwyd / cytunwyd arno.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Mai.) | £353.07 | Shaun Wharton | £200 |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

## 7. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.

7.1 Hyfforddiant Un Llais Cymru

7.2 Cynrychiolwyr i fynychu Cyfarfodydd Un Llais Cymru – Mynegodd Cyng. Siân Enfys Jones a Sharon Parry ddiddordeb mewn mynychu'r cyfarfodydd.

7.3 Ymgynghoriad statudol: Ysgol Uwchradd Caergybi

7.4 Llythyr gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

7.5 Camau ariannol blynyddol: gwersi pwysig yn dod i'r amlwg

7.6 Pecyn Cymorth Chwarae

7.7 Fforwm cyswllt cynghorau tref a chymuned 19-5-25 – cyflwyniadau

## 8. Polisïau

Roedd y clerc wedi ychwanegu cyfeiriad at Un Llais Cymru a thabl cynnwys i'r Rheolau Sefydlog a fabwysiadwyd ar 18 Gorffennaf 2023. Ni fu unrhyw newidiadau eraill i'r ddogfen.

## 9 Adroddiadau Aelodau

9.1 Cyng. Sharon Parry: Mynegodd bryderon am gyflwr y llochesi fysiau a'r rheiliau oedd wedi'u difrodi wrth yr Eglwys. Holodd hefyd am y posibilrwydd o gael hysbysfwrdd wrth yr Eglwys.

9.2 Cyng. Gareth Thomas: adroddodd fod arwydd Lôn Cymyran wedi'i ddinistrio a bod arwydd pentref Caergeiliog wedi dod yn rhydd.

**10. Cyfarfod nesaf - 15 Gorffennaf 2025**

: